

## **COLEG BRENHINOL CERDD A DRAMA CYMRU**

### **Adroddiad Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg 2018**

**Yn seiliedig ar ddata a gasglwyd ar gyfer y cyfnod  
1 Ebrill 2018 hyd 31 Gorffennaf 2018**

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg  
This document is available in English

## 1. RHAGYMDRODD

Sefydlodd Mesur y Gymraeg (Cymru) fframwaith cyfreithiol i osod dyletswyddau ar rai sefydliadau penodol i gydymffurfio â Safonau (Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6). Nod y Safonau yw

- rhoi mwy o eglurder i sefydliadau ynglŷn â'u dyletswyddau o ran y Gymraeg
- rhoi mwy o eglurder i siaradwyr Cymraeg ynglŷn â'r gwasanaethau y gallant ddisgwyl eu derbyn yn Gymraeg
- sicrhau mwy o gysondeb o ran gwasanaethau Cymraeg a gwella eu hansawdd

Mae'r dyletswyddau sy'n deillio o'r Safonau'n golygu na ddylai sefydliadu yng Nghymru drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

O 1 Ebrill 2018 mae dyletswydd statudol ar Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg fel y nodir yn yr Hysbysiad Cydymffurfio a gyhoeddwyd ar 29 Medi 2017. Mae Safonau'r Gymraeg yn disodli Cynllun Iaith Gymraeg y Coleg.

Yn unol â gofynion y Safonau, rhaid i'r Coleg gynhyrchu adroddiad blynyddol ar gyfer pob blwyddyn ariannol, sy'n ymdrin â'r modd y mae'r Coleg wedi cydymffurfio â'r Safonau. Rhaid cyhoeddi'r adroddiad dim hwyrach na 6 mis wedi diwedd y flwyddyn ariannol y mae'n berthnasol iddi. Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn ymdrin â'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Gorffennaf 2018.

Mae'r materion y mae'n rhaid adrodd arnynt yn cynnwys:

- Sut y mae'r Coleg wedi cydymffurfio â'r safonau yr oedd dyletswydd arnom i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno (fesul dosbarth safonau - cyflenwi gwasanaethau, llunio polisi, gweithredu);
- Nifer y cwynion a dderbyniwyd (fesul dosbarth safonau - cyflenwi gwasanaethau, llunio polisi, gweithredu);
- Sgiliau Cymraeg cyflogeion;
- Nifer yr aelodau staff a fynychodd gyrsiau hyfforddiant Cymraeg a gynigiwyd;
- Nifer y staff sy'n gwisgo bathodyn 'Iaith Gwaith' ar ddiwedd y flwyddyn ariannol;
- Nifer y swyddi newydd a swyddi gwag a hysbysebwyd a gafodd eu dosbarthu yn ôl gwahanol ofynion parthed sgiliau yn y Gymraeg.

Bydd yr adroddiad hwn ar gael ar wefan Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru o 31 Ionawr 2019.

## **2. LLYWODRAETHU A MONITRO**

### **2.1 Rheoli'r Polisi Iaith Gymraeg a Chydymffurfiad**

Grŵp Llywio Iaith Gymraeg y Coleg, a arweinir gan yr Is-brifathro, sydd â chyfrifoldeb am reoli Polisi Iaith Gymraeg y Coleg. Mae'r Grŵp Llywio yn adrodd yn uniongyrchol wrth yr Uwch Dîm Rheoli, a gall gynghori Pwyllgorau eraill (e.e. Bwrdd Academaidd, Cyfarfodydd Adrannol, Grŵp Gweithrediadau ac ati) fel sy'n briodol.

### **2.2 Monitro**

Mae'r Grŵp Llywio yn cynnal cyfarfodydd blynyddol gydag adrannau mewnol er mwyn adolygu cydymffurfiad parhaus â'r Safonau, a bydd hefyd yn cynnal gweithgarwch siopwr dirgel bob tymor, sy'n cynnwys galwadau ffôn, negeseuon e-bost ac ymweliadau. Adroddir ar y canlyniadau wrth y penaethiaid adran a'r rheolwyr.

## **3. CYDYMFFURFIAD**

### **Sut mae'r Coleg wedi cydymffurfio â'r Safonau**

Mae llawer o adnoddau a chanllawiau i staff CBCDC wedi'u darparu ar y fewnwyd - 'Hyb CBCDC'.

Crëwyd ymgyrch gyfathrebu er mwyn sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'r gofynion, a chynhaliwyd cyfarfodydd gydag adrannau mewnol er mwyn egluro cydymffurfiad â'r Safonau parthed eu gweithgareddau. Fe wnaeth aelodau o'r Grŵp Llywio hefyd fynychu cyfarfodydd Uwch Dîm Rheoli a Gweithrediadau er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r gofynion, ac i ymateb i unrhyw gwestiynau neu bryderon.

Mae Polisi Gweithredu Safonau'r Gymraeg ([link](#)) yn mynd i'r afael â sut mae Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru yn bwriadu cydymffurfio â'r Safonau, a chyhoeddir hwn ar wefan y Coleg.

Rhwng 1 Ebrill a 31 Gorffennaf 2018, cydymffurfiodd y Coleg â dosbarthiad dynodedig safonau yn y ffyrdd canlynol:

### **3.1 Safonau Cyflenwi Gwasanaethau**

**3.1.1** Mae pob gohebiaeth i'r holl staff a/neu fyfyrwyr yn ddwyieithog

**3.1.2** Ni chynhaliwyd unrhyw gyfarfodydd yn bennaf yn Gymraeg yn ystod y cyfnod hwn. Fodd bynnag, gofynnwyd i'r cyfranogwyr a wahoddwyd i'r Diwrnod Agored Cerddoriaeth i Israddedigion a gynhaliwyd ar 2 Gorffennaf 2018 i nodi dewis iaith ac roedd staff a myfyrwyr ar gael i sgwrsio ac ateb cwestiynau yn Gymraeg ar alw.

- 3.1.3** Mae CBCDC wedi comisiynu LfB Cymru Cyf i ymgymryd â'i waith cyfieithu ffurfiol ac mae wedi sefydlu pwynt cyswllt canolog i gasglu deunyddiau i'w cyfieithu'n broffesiynol.

## 3.2 Safonau Llundio Polisi

- 3.2.1** Mae CBCDC wedi disodli ei hen Bolisi Iaith Gymraeg gyda Pholisi Gweithredu Safonau'r Gymraeg (ar gael ar ein gwefan), sy'n ceisio egluro sut y cedwir at Safonau'r Gymraeg yn ymarferol. Mae'r polisi yn cyfeirio at ddogfennau gweithdrefnol eraill sy'n cael eu diwygio'n gyson, yn ogystal â manteisio ar y berthynas gyda Phrifysgol De Cymru, ei rhiant gorff. O ran rhai polisiâu penodol, yn bennaf Rheoli Adnoddau Dynol ac Iechyd a Diogelwch, nodir bod CBCDC yn parhau wedi ymrwymo i wasanaethau Prifysgol De Cymru.
- 3.2.2** Ni chafod unrhyw bolisiâu penodol eraill eu hystyried na'u cymeradwyo yn ystod y cyfnod adrodd.

## 3.3 Safonau Gweithredu

- 3.3.1** Mae'r canlynol yn enghraifft o'r adnodd sydd ar gael i staff ar Hyb CBCDC (mewnwyd):

The screenshot shows the RWCMDHUB website interface. At the top left is the logo 'RWCMDHUB'. At the top right, it says 'Hello | LOG IN'. A navigation menu on the left includes 'Governance' (highlighted in pink), 'Information Governance', and 'Welsh Language Standards'. Under 'Welsh Language Standards', there are links for 'Correspondence', 'Telephone Calls', 'Meetings', 'Signage', 'Welsh Speakers', and 'Out of Office Replies'. The main content area has a search bar and a 'Published: 28/03/18' date. The title is 'Welsh Language Standards'. The text explains that these standards are legally binding requirements to improve bilingual services. It lists 'Guiding Principles' such as: 'Individuals have the right to deal with us in Welsh.', 'When material is produced in both Welsh and English, the Welsh language must not be treated less favourably than the English language.', and 'Welsh language material should be of an appropriate quality and standard.' A link is provided to 'View a copy of the Welsh Language Standards issued to the College.' At the bottom, it asks if the user has any questions regarding the standards and provides contact information for staff.

### 3.3.2 Nifer yr aelodau staff sy'n gwisgo bathodyn 'laith Gwaith' ar ddiwedd y flwyddyn ariannol

Rhoddir bathodynau laith Gwaith i bob aelod staff sydd wedi nodi eu bod yn siarad Cymraeg yn rhugl (cyfanswm o 13) a gellir gwneud cais am fathodyn drwy gysylltu â'r cydlynwyr neu'r Adran Farchnata.

Mae rhai aelodau staff wedi dechrau cynnig gwasanaethau yn Gymraeg neu'n ddwyieithog o ganlyniad i gynnydd mewn hyder a datblygiad eu sgiliau.

## 3.4 Safonau Cadw Cofnodion

### 3.4.1 Cofnodion o allu ieithyddol staff

Mae CBCDC wedi cynnal arolwg cynhwysfawr o sgiliau iaith Gymraeg.

Ym misoedd Mawrth/Ebrill 2018, gwahoddwyd staff yn y Coleg i ymateb i Arolwg Sgiliau Iaith Gymraeg. Roedd holiadur ar-lein yn gofyn i aelodau staff asesu eu gallu eu hunain i siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg. Ymatebodd 147 aelod staff i'r arolwg a cheir crynodeb o'r canlyniadau isod.

### Sut fyddech chi'n disgrifio eich gallu i siarad?

	Prif rôl yn CBCDC		Cyfanswm
	Addysgu	Cefnogi	
Dim – alla'i ddim siarad Cymraeg	41	28	69
Ychydig – gallaf gyfarch rhywun yn Gymraeg a dweud ychydig frawddegau syml	17	26	43
Gweddol – gallaf siarad ychydig o Gymraeg, ond dydw i ddim yn hyderus	5	15	20
Da – gallaf siarad Cymraeg yn hyderus mewn rhai sefyllfaoedd	2	0	2
Rhugl – gallaf siarad Cymraeg yn hyderus gyda phawb	5	8	13
Cyfanswm	70	77	147

### Sut fyddech chi'n disgrifio eich gallu i ddarllen Cymraeg?

	Prif rôl yn CBCDC		Cyfanswm
	Addysgu	Cefnogi	

Dim – alla'i ddim darllen Cymraeg	41	34	75
Ychydig – gallaf ddarllen brawddegau Cymraeg syml	14	23	37
Gweddol - gallaf ddarllen ychydig o Gymraeg, ond dydw i ddim yn hyderus	6	8	14
Da – gallaf ddarllen Cymraeg, ond rwy'n teimlo'n llai hyderus os yw'r testun yn cynnwys geiriau anghyfarwydd neu eirfa arbenigol	4	6	10
Rhugl – gallaf ddarllen Cymraeg ac rwy'n deall yr ystyr yn llwyr	5	6	11
Cyfanswm	70	77	147

### Sut fyddech chi'n disgrifio eich gallu i ysgrifennu Cymraeg?

	Prif rôl yn CBCDC		Cyfanswm
	Addysgu	Cefnogi	
Dim – alla'i ddim ysgrifennu Cymraeg	46	42	88
Ychydig - gallaf ysgrifennu brawddegau syml yn Gymraeg	14	19	33
Gweddol - gallaf ysgrifennu ychydig o Gymraeg, ond byddai angen i rywun wirio ei fod yn gywir	4	8	12
Da - gallaf ysgrifennu Cymraeg, ond rwy'n teimlo'n llai hyderus wrth ddefnyddio iaith ffurfiol	2	4	6
Rhugl – gallaf ysgrifennu yn gywir yn Gymraeg, yn ffurfiol ac anffurfiol	4	4	8
Cyfanswm	70	77	147

#### 3.4.2 Nifer y cwynion a dderbyniwyd (fesul dosbarth safonau – cyflenwi gwasanaethau, llunio polisi, gweithredu)

Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion, yn ffurfiol nac anffurfiol, yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r Weithdrefn Cwynion i'w gweld ar wefan CBCDC.

#### 3.4.3 Nifer yr aelodau staff a fynychodd gyrsiau hyfforddiant Cymraeg a gynigiwyd

Yn ystod Blwyddyn Academaidd 2017/18 (a oedd yn cynnwys y Cyfnod Adrodd) mynychodd 15 aelod staff (5 academydd, 10 staff cefnogi) y dosbarth cyflwyniad i'r Gymraeg, a mynychodd 4 aelod staff (y 4 ohonynt yn academyddion) y dosbarth Cymraeg uwch.

#### **3.4.4 Swyddi newydd a swyddi gwag**

Yn ystod y cyfnod adrodd diwethaf hysbysebwyd 1 swydd gyda 0 â'r Gymraeg yn ofynnol ac 1 â'r Gymraeg yn ddymunol. Nid oedd y sawl a gafodd y swydd yn siarad Cymraeg.

## **4 GWYBODAETH BELLACH**

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r Adroddiad Blynyddol neu unrhyw agwedd ar gydymffurfriad Coleg Brenhinol Cymru â Safonau'r Gymraeg, cysylltwch ag:

Adran Marchnata a Chyfathrebu  
Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru  
Maes y Castell  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3ER  
[cymraeg@cbcddc.ac.uk](mailto:cymraeg@cbcddc.ac.uk)